

2024 Rhif (Cy.)

2024 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487  
(Yr Hen Bont dros Afon Dyfi,  
Machynlleth, Powys / Gwynedd)  
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau  
Aros) 202-

The A487 Trunk Road (The Old  
Dyfi Bridge, Machynlleth, Powys /  
Gwynedd) (Prohibitions & Waiting  
Restrictions) Order 202-

Gwnaed \*\*\*

Made \*\*\*

Yn dod i rym \*\*\*

Coming into force \*\*\*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2) and 4(2) of, the Road Traffic Regulation Act 1984 (1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddogion Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officers of Dyfed-Powys Police and North Wales Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Yr Hen Bont dros Afon Dyfi, Machynlleth, Powys / Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Aros) 202- a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar \*\*\*\* 202-.

Title and Commencement

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (The Old Dyfi Bridge, Machynlleth, Powys / Gwynedd) (Prohibitions & Waiting Restrictions) Order 202- and this Order comes into force on \*\*\*\* 202-.

Gwahardd Cerbydau

2. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 5, ni chaiff

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) O.S. 1990/1656.

Prohibition of Vehicles

2. Except as provided article 5, no person may

(1) 1984 c. 27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c. 25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) S.I. 1990/1656.

neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

### Gwahardd Aros ar unrhyw adeg

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### Cyfyngu ar Aros (rhwng 23:00 o'r gloch ac 08:00 o'r gloch)

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw garafán modur neu garafán a dynnir gan gerbyd modur aros rhwng 23:00 o'r gloch ac 08:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod neu ddiwrnodau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

### Esemptiadau

5. Caiff person yrru unrhyw gerbyd neu beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd fynd ar hyd y darn o gefnffordd a bennir yn erthygl 2 pan fo angen gwneud hynny ar frys at ddiben symud da byw o ganlyniad i lifogydd neu'r perygl o lifogydd.

6. Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

- (a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;
- (b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;
- (c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol:
  - (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
  - (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
  - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darn o'r gefnffordd; neu  
gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darnau o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebu 2003(1);

(1) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road described in Schedule 1 to this Order.

### Prohibition of Waiting at Any Time

3. Except as provided article 6, no person shall cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

### Restriction of Waiting (Between 23:00 and 08:00 Hours)

4. Except as provided article 6, no person shall cause or permit any motor caravan or caravan drawn by a motor vehicle to wait between 23:00 hours and 08:00 hours on any day or days on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

### Exemptions

5. A person may drive or cause or permit any vehicle to proceed along the length of trunk road specified in article 2 where it is urgently necessary to do so for the purpose of moving livestock in consequence of flooding or the risk of flooding.

6. A person may cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in article 3 for so long as may be necessary to enable—

- (a) a person to board or alight from a vehicle;
- (b) goods to be loaded on or unloaded from a vehicle;
- (c) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:
  - (iv) building, industrial or demolition operations;
  - (v) the removal of any obstruction to traffic;
  - (vi) the maintenance, improvement or reconstruction of the length of the trunk road; or
  - (vii) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to the lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(1);

(1) 2003 c. 21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c. 30).

- (d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;
- (e) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu
- (f) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:
  - (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
  - (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;
  - (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu
  - (iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig \*\* \*\*\*\*\* 2024

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

### **ATODLEN 1** **Gwahardd cerbydau**

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd ddosbarthiadol yr A493, ar bwynt 30 o fetrau i'r gogledd o ffin Powys/Gwynedd, hyd at bwynt 43 o fetrau i'r de o'r hen Bont dros Afon Dyfi yn Sir Powys.

### **ATODLEN 2** **Gwahardd aros ar unrhyw adeg**

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 43 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 60 o fetrau i'r de o'r ffin honno.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 65 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 141 o fetrau i'r de o'r

- (d) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;
- (e) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or
- (f) the vehicle to stop when the person in control of it:
  - (i) is required by law to stop;
  - (ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;
  - (iii) is prevented from proceeding; or
  - (iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated \*\* \*\*\*\*\* 2024

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government

### **SCHEDULE 1** **Prohibition of vehicles**

The length of A487 trunk road that extends from its junction with the A493 classified road, at a point 30 metres north of the Powys/Gwynedd border, to a point 43 metres south of the old Dyfi Bridge in the County of Powys.

### **SCHEDULE 2** **Prohibition of waiting at any time**

The length of northbound carriageway of the A487 trunk road that extends from a point 43 metres south of the Powys/Gwynedd border to a point 60 metres south of the said border.

The length of the northbound carriageway of the A487 trunk road that extends from a point 65 metres

ffin honno.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 104 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 141 o fetrau i'r de o'r ffin honno.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 168 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 186 o fetrau i'r de o'r ffin honno.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 43 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 178 o fetrau i'r de o'r ffin honno.

### **ATODLEN 3**

#### **Cyfyngu ar aros ar gyfer carafannau modur neu garafannau a dynnir gan gerbydau modur rhwng 23:00 o'r gloch ac 08:00 o'r gloch**

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 80 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 104 o fetrau i'r de o'r ffin honno.

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 141 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 168 o fetrau i'r de o'r ffin honno.

south of the Powys/Gwynedd border to a point 141 metres south of the said border.

The length of northbound carriageway of the A487 trunk road that extends from a point 104 metres south of the Powys/Gwynedd border to a point 141 metres south of the said border.

The length of northbound carriageway of the A487 trunk road that extends from a point 168 metres south of the Powys/Gwynedd border to a point 186 metres south of the said border.

The length of southbound carriageway of the A487 trunk road that extends from a point 43 metres south of the Powys/Gwynedd border to a point 178 metres south of the said border.

### **SCHEDULE 3**

#### **Restriction of waiting for motor caravans or caravans drawn by motor vehicles between 23:00 and 08:00 hours**

The length of A487 trunk road that extends from a point 80 metres south of the Powys/Gwynedd border to a point 104 metres south of the said border.

The length of A487 trunk road that extends from a point 141 metres south of the Powys/Gwynedd border to a point 168 metres south of the said border.